
Ffonau

Ni fydd nifer o ffonau yn gweithio pan fo toriad yn y cyflenwad. Gwiriwch a oes ganddynt fatri wrth gefn neu sicrhewch fod gennych ffôn symudol wedi'i wefru wrth law.

Defnyddio generaduron


Os bydd raid i ni ddiffodd eich trydan, byddwn yn ceisio sicrhau bod y toriad yn para cyn lleied â phosibl.

Rydym hefyd wedi ymrwmo'n llwyr i roi gwybodaeth gywir i chi ynglŷn â pha mor hir yr ydym yn disgwyl i'r toriad bara.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion, efallai na fyddwch yn gallu ymdopi heb drydan ac efallai y byddwch yn dymuno llogi generadur symudol fel ffordd arall o gael cyflenwad.

Os byddwch yn penderfynu gwneud hyn, sicrhewch fod y generadur yn cael ei gysylltu'n briodol gan drydanwr cymwys.

Mae'n rhaid i chi ein hysbysu os ydych wedi gosod generadur. Bydd hyn yn sicrhau y gall ein gweithwyr weithio'n ddiogel yn eich eiddo ac o'i gwmpas.

 0330 10 10 444

 customercare@spenergynetworks.com

 www.spenergynetworks.co.uk

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn Cymraeg. Os byddwch angen copi, defnyddiwch y manylion cyswllt uchod.

Ni fydd galwadau i rifau 03 yn costio mwy na galwad cyfradd genedlaethol i rif 01 neu 02 ac mae'n rhaid iddynt gael eu cynnwys fel rhan o unrhyw fonodau cynwysedig yn yr un modd â galwadau 01 a 02. Mae'r rheolau hyn yn gymwys i alwadau o unrhyw fath o linell yn cynnwys symudol, BT, unrhyw linell sefydlog arall neu ffôn talu.

Cadw busnesau'n agored

Cyngor ar baratoi am doriad yn y cyflenwad



Cadw busnesau'n agored

Ein nod yw cyflenwi trydan diogel a dibynadwy i'n cwsmeriaid bedair awr ar hugain y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Fodd bynnag, mae pethau'n mynd o chwith ar brydiau neu gall amgylchiadau na ellir eu hatal, megis stormydd, amharu ar y cyflenwad.

Os ydych yn rhedeg busnes bach efallai y bydd angen i chi benderfynu a ydych am barhau i fod yn agored i wneud busnes neu beidio os bydd toriad yn eich cyflenwad.

Mae'r daflen hon yn amlinellu rhai o'r materion allweddol y bydd angen i chi eu hystyried efallai, a rhai o'r camau y gallwch eu cymryd.

Oergelloedd a rhewgelloedd

Gwiriwch gyda'r gwneuthurwr neu'r gosodwr oherwydd nid yw rhai oergelloedd a rhewgelloedd masnachol yn aros yn oer, ac efallai y bydd angen eu gwagio os bydd toriad yn y cyflenwad.

Larymau lladrad

Fel rheol ceir batri wrth gefn yn y larymau hyn, felly dylent weithio tra bod toriad yn y cyflenwad. Cadarnhewch hyn gyda'ch gosodwr.

Lifftiau

Bydd y rhan fwyaf o'r lifftiau confensiynol sydd â motorau trydan yn stopio yn eu hunfan os bydd toriad yn y cyflenwad. Os ydych yn gwybod ymlaen llaw y bydd toriad yn y cyflenwad, anfonwch y lifft i'r llawr isaf a sicrhewch fod eich cwsmeriaid a'ch gweithwyr yn gwybod na ddylent ei ddefnyddio. Bydd rhai lifftiau hydrolog yn dychwelyd i'r llawr isaf yn awtomatig. Holwch eich gosodwr am fanylion ynglŷn â sut mae eich lifft yn gweithio, fel eich bod yn gwybod beth i'w wneud os bydd toriad yn y cyflenwad.

Offer electronig

Mae gan nifer o gofrestrau arian, cloriannau electronig a mathau eraill o offer gof ar gyfer storio gwybodaeth am werthiant a dyddiad/amser. Mae gan y rhan fwyaf o'r rhain fatris gwarchod cof, fel bod y wybodaeth yn cael ei chadw os bydd toriad yn y cyflenwad. Yn achos toriad wedi'i gynllunio, argymhellir eich bod yn datgysylltu plygiau'r offer ymlaen llaw. Os bydd eich trydan yn diffodd yn annisgwyl, diffoddwch eich systemau a'u datgysylltu'r plygiau ar unwaith. Holwch eich cyflenwr i gael gwybodaeth ynglŷn â sut mae toriad yn y cyflenwad yn gallu effeithio ar systemau cyfrifiadurol. Mae nifer o'r rhain yn caniatáu i chi gadw data gwerthiant neu'n gwneud hynny'n awtomatig.

